



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

13 Mawrth 2020

9:00 yb to 13:30 yp

Optic, Llanelwy

Yn bresennol yn ystafell:	Teresa Owen (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn yr Jones, y Cyng. Christine Jones, Judith Greenhalgh, Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Peter Williams, Roma Hooper
Cysylltiad o bell i'r ystafell (a oedd yn aflwyddiannus)	Y Cyng. Joan Lowe(JLo), y Cyng. Llinos Medl, John Gladston, Kevin Roberts, Morwena Edwards, y Cyng. Louise Emery, Jenny Williams, Jennie Lewis (JLe)
Ymddiheuriadau:	Bethan E Jones, Catherine Elaine Jones, Charlotte Walton, Chris Stockport, Clare Budden, y Cyng. Dafydd Meurig, y Cyng. Bobby Feeley, Ffion Johnstone, Helen Corcoran, Lesley Singleton, Lynda Colwell, Nicola Stubbins, Rob Smith, Steve Gadd, Wendy Jones, Estelle Hitchon, Mark Wilkinson (MWil), Shan Lloyd William

Oherwydd y newidiadau hwyr i fformat y cyfarfod oherwydd COVID 19, trefnwyd y cyfarfod fel cymysgedd o bresenoldeb corfforol a chyswllt rhithwir.

Oherwydd anawsterau technegol cysylltu dros WebEx/Skype yn ystod y cyfarfod, oherwydd lled band annigonol gallai'r cyfarfod ond fynd yn ei flaen gyda'r rhai oedd yn bresennol yn yr Optic.

Mae partneriaid sydd wedi cyflwyno sylwadau dros e-bost ar gyfer eitemau agenda wedi eu cynnwys yn y nodiadau hyn.

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Bydd bob cam gweithredu sydd angen cytundeb aelodau'r BPRh yn cael eu dosbarthu i gael ymateb sydyn.

2 Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr fel cofnod cywir.

Camau gweithredu a gwblhawyd:

- Cytunodd BJE a SA sut y gellir cynnal trafodaeth bellach ar y cynllun BAHW.
- CHC ar raglen heddiw ond bydd yn cael ei ohirio.

Camau gweithredu i'w cwblhau:

- Adroddiad RIIH wedi ei roi ar raglen mis Mai.

Adborth o'r cyfarfod gyda chynrychiolwyr gofalwyr gan y Cadeirydd (13.02.2020)

Bu i TO, LS a BJE gyfarfod yn ddiweddar gyda chynrychiolwyr Gofalwyr JLe a PW, i drafod taliad cydnabyddiaeth Defnyddiwr Gwasanaeth a chynrychiolwyr gofalwyr BPRhGC.

Yn dilyn trafodaeth gynhyrchiol iawn ar y mater hwn teimlai'r Cadeirydd fod hwn yn fater sydd angen ei ddatrys ar lefel genedlaethol a chynigiodd ysgrifennu eto at Lywodraeth Cymru i amlygu hyn.

Dyweddodd BJE fod y mater hwn wedi ei drafod yn ddiweddar yng nghyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru, a chytunwyd y dylai'r mater fynd i gyfarfod PSG Traws Sector gan gadeirydd y Grwp Arweinyddiaeth. NS/BJE i baratoi briff. Cytunodd aelodau'r BPRh fod hyn i'w groesawu oherwydd y goblygiadau ehangach posib gyda fforymau rhanbarthol/lleol eraill sydd â chynrychiolwyr gofalwyr/dinasyddion.

Adborth o Ddigwyddiad Dysgu BPRh LIC (12.02.2020)

Nododd MWJ fod mynychwyr wedi cael cyfres o gyflwyniadau ar heriau a chyfleoedd BPRh a thrafodaeth yn canolbwyntio ar 'i ba raddau y gwelir BPRh fel gwir yrrwr a newid'. Bu i drafodaethau ynghylch y rhaglen drawsnewid godi'r mater o gymhlethdod gwahanol grantiau, gyda strwythurau adrodd yn wir her i bob BPRh a'r angen i ymdrin â'r mater sylfaenol hwn er mwyn gwneud y mwyaf o bob ffrwd gyllido.

Bu i'r digwyddiad hefyd amlygu'r gwahanol gamau o aeddfedrwydd ar gyfer bob BPRh, ac mae'r gwaith presennol a ddisgwyllir gan y BPRh wedi newid yn sylweddol o'r pwrpas gwreiddiol.

Adborth gan 'Adeiladu Cymru Iachach' (BAHW)

Rhoddodd TO drosolwg o'r drafodaeth Adeiladu Cymru Iachach (BAHW) a gynhaliwyd yng nghyfarfod y grŵp Arweinyddiaeth a ymunwyd gan CB, SLW, KR, WJ hefyd – papurau wedi eu cynnwys er gwybodaeth.

Trafodwyd amrywiol ddewisiadau; e.e. un prosiect mawr mewn ardal ddifreintiedig o'r rhanbarth, prosiect tloedi bwyd ledled Gogledd Cymru i weithio gyda'r sefydliadau tai.

Dywedodd TO fod cydweithwyr yn cytuno ar ddiwedd y drafodaeth i gefnogi'r cynllun blaenoriaeth. Bydd llythyr yn cael ei anfon gan BPRh yn dilyn cyfarfod heddiw i alluogi rhyddhau'r arian ar gyfer 2019-20.

Rhoddodd JG adborth ar ran NS yn awgrymu cael trafodaeth arall cyn cefnogi.

Cadarnhaodd NA fod safbwyntiau anodd wedi eu lleisio yn y drafodaeth yn y grŵp Arweinyddiaeth, fodd bynnag, gwerthfawrogir y brys o greu a chefnogi'r cynllun. Cynigiodd NA ein bod yn dysgu o hyn er mwyn i ni beidio ag wynebu'r un anawsterau gyda ffynonellau cyllido grant yn y dyfodol a allai gyrraedd ar fyr rybudd.

Nododd AJ fod lefel o bryder, oherwydd y brys i gefnogi'r cynllun, a chytunodd gyda NA i gymryd y dewis pragmataidd er mwyn rhyddhau'r arian. Cynigiodd AJ y dylai'r BPRh edrych ar gytuno ar broses lywodraethu i'w dilyn pan fo ffynonellau arian grant o'r fath yn dod i'r BPRh.

Cadarnhaodd TO ei bod wedi ymrwymo i gyfarfod gyda chydweithwyr Trydydd Sector fel rhan o'r cynllun, ac mae'r cyfarfod hwn eisoes wedi digwydd.

Sylwadau e-bost a dderbyniwyd:

ME: Tra'n derbyn y gall yr amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw "gynnig" i Lywodraeth Cymru fod yn heriol, rwy'n pryderu fod ysbryd yr hyn wnaeth nifer awgrymu yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd Partneriaeth wedi ei golli yn y cynnig terfynol yma. Cawsom gyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth i drafod ymhellach, ble gwahoddwyd y trydydd sector ac eraill, ac rwy'n meddwl fod y teimlad hwn hefyd yn debyg – ond ni chawsom adroddiad yn y cyfarfod hwn – felly roedd yn anodd deall yn llawn beth oedd wedi newid o'r cyflwyniad gwreiddiol. Ar ôl darllen yr adroddiad sydd o fy mlaen, teimlaf nad yw'r cynnig i ganolbwyntio ar un neu ddau o ymyriadau penodol, efallai mewn un ardal ddaearyddol, wedi dod allan o gwbl, heb unrhyw gyfeiriad at y ffaith mai dyma oedd dyhead nifer o aelodau'r BPRh.

Rwy'n gweld bod nifer fechan o themâu wedi eu datblygu, ond nid oedd hyn wir ar gais aelodau'r Bwrdd Partneriaeth. Y cais oedd canolbwyntio ar un neu ddau o bethau. Yn amlwg nid wyf yn arbenigwr ar faterion iechyd y cyhoedd, ond rwyf eisiau lleisio'r ffaith fod gan nifer ohonom wahanol safbwyntiau – a dylid nodi bod gwahanol safbwyntiau o fewn y cynnig neu yn y cofnod. Nid wyf yn sicr os yw'r

wrth ddadl yn glir i mi, heblaw efallai y bydd angen yr arian hwn i ariannu gwasanaethau iechyd y cyhoedd sylfaenol. Os mai dyma'r achos, rwy'n meddwl bod angen dweud hynny yn fwy eglur, ac nad oedd yr arian wir ar gael i dreialu unrhyw beth newydd ac arloesol. Anodd egluro ar e-bost ond gobeithio fod hyn yn gwneud synnwyr.

Dyweddodd JW a'r Cyng. LE: Cynllun Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fod yn ansicr ynghylch cadarnhau, y grŵp Arweinyddiaeth yn aneglur o ran y penderfyniad a wnaed, angen edrych ar lywodraethu arian partneriaeth yn y dyfodol.

Yn dilyn amrywiol drafodaethau, gyda chyfraniad JW a ME ar e-bost, derbyniodd JG sicrwydd cydweithwyr BPRh a oedd yn cytuno i symud ymlaen. Croesawodd JG yr awgrym o gynnig i sefydlu polisi llywodraethu BPRh ar gyfer arweiniad yn y dyfodol mewn perthynas â grantiau tymor byr.

Cytunodd BJE y byddai'n ymarfer da i'r BPRh greu a mabwysiadu proses ar gyfer cyllid tymor byr er mwyn i bob aelod BPRh gael cyfle i gyfrannu at drafodaethau.

Dyweddodd y cadeirydd y bydd rhaglen BPRh y dyfodol mewn dwy ran: Rhaglen Strategol a Rhaglen Fusnes.

Hysbysodd y cadeirydd hefyd ynghylch ymddiswyddiad diweddar WJ o'r Bwrdd. Mae WJ wedi bod yn aelod gweithgar o BPRhGC ac wedi cynrychioli'r cynghorau Gwasanaeth Gwirfoddol Gogledd Cymru am nifer o flynyddoedd, ac yn aelod o'r Bwrdd Cysgodi gwreiddiol.

Yn dilyn trafodaeth BPRh penderfynwyd y byddai'r cadeirydd yn ysgrifennu at y chwe Chyngor Gwirfoddol ledled Gogledd Cymru, yn cydnabod ymddiswyddiad WJ, ac yn diolch am y gefnogaeth barhaus ar draws Gogledd Cymru. Cytunwyd y byddai cael cynrychiolydd Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol ar y BPRh yn cael ei argymhell er nad yw'n aelodaeth angenrheidiol yn y canllawiau statudol.

Camau Gweithredu

- BJE/NS i friffio prif weithredwyr ar daliad cydnabyddiaeth Defnyddiwr Gwasanaeth a chynrychiolwyr gofaluwr BPRhGC
- Creu proses llywodraethu BPRh ar gyfer ffynonellau ariannu - BJE.
- TO i anfon llythyr i CGG – BJE.

3 Ysgol Feddygol Gogledd Cymru

Mae'r eitem hon wedi ei gohirio i gyfarfod BPRhGC yn y dyfodol oherwydd COVID 19.

Camau Gweithredu

- Rhaglen y dyfodol - RW

4 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 201

Cafodd y bwrdd ddiweddariad cryno gan BJE ar y Codau a'r Canllawiau a ddiweddarwyd: Rhan 9 Canllaw Statudol (Trefniadau Partneriaeth).

Sylw ar e-bost:

JW a'r Cyng. LE: Faint gallwn wir ei ddylanwadu gan mai dyma'r fersiwn terfynol, dal yn poeni am oblygiadau cyllideb gyfun ac aelodaeth gynyddol, a allwn ddod yn ôl i'r cylch gorchwyl ar gyfer y BPRh a Llywodraeth Leol eto?

Roedd aelodau BPRhGC yn cytuno, oherwydd y newidiadau amrywiol a gofynion BPRh o fewn y canllawiau, bydd angen trafodaeth lawn mewn cyfarfod BPRh y dyfodol.

Canolbwynt a blaenoriaethau drafft

Crëwyd y papur canolbwynt a blaenoriaethau drafft yn dilyn gweithdai ar weledigaeth a blaenoriaethau BPRh, yn hytrach na chreu strategaeth. Bydd angen ail-ymweld a thrafod y ddogfen hon hefyd, fel rhan o'r gofynion ychwanegol yn Rhan 9 y Canllawiau Statudol. Gofynnir i aelodau BPRh ddarllen ac ymateb, er mwyn cymeradwyo'r ddogfen hon pan y'i trafodir nesaf.

Camau Gweithredu

- Codau a'r Canllawiau a ddiweddarwyd: Rhan 9 Canllaw Statudol (Trefniadau Partneriaeth) - Rhaglen yn y dyfodol – RW
- Aelodau BPRh i ymateb i'r ddogfen Canolbwynt a blaenoriaethau.

5 Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol (drafft) ar gyfer ymgynghoriad

Bu i'r cadeirydd gyflwyno ar yr ymgynghoriad, Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol drafft ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn wedi eu cyd-lunio gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru, gyda chyfraniad gan yr Athro Michael West, Academi Cymru a Llywodraeth Cymru. Maent wedi eu hategu gan dystiolaeth gadarn a ddatblygwyd dros 30 mlynedd gan arbenigwyr yn y maes.

Gofynnodd TO i aelodau BPRh ddarparu sylwadau ac adborth, ac i fod yn rhan o'r cyfleoedd ymgynghori. Cynigiodd TO ymateb ar y cyd gan y BPRh, a bydd yn anfon e-bost at aelodau BPRh yn annog ymatebion. Mae angen yr adborth erbyn 10.04.2020

Dyweddodd MWim nad oedd yr egwyddorion ond yn ymwneud â gweithredu egwyddorion o fewn sefydliadau ein hunain, ond i annog a gweithredu yn unol â sefydliadau mewn perthynas â chomisiynu gwaith hefyd.

Roedd y BPRhGC yn cytuno i ymateb ar y cyd i'r ymgynghoriad.

Camau Gweithredu

- Cylchredeg ymgynghoriad Egwyddorion Arweinyddiaeth ac aelodau y ymateb - TO

6 Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

Mae'r eitem hon wedi ei gohirio i gyfarfod BPRhGC yn y dyfodol oherwydd COVID 19.

Camau Gweithredu

- Rhaglen y dyfodol - RW

7 Cymru Iachach

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol (RTGC)

Cyfeiriodd AJ at nodyn briffio defnyddiol a gafwyd gan Jo Ward ar waith y Rhaglen Drawsnewid GC, a chynigiodd fod y nodyn yn cael ei anfon at aelodau'r BPRh.

Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc

Yn absenoldeb NS, mae adroddiad briff wedi ei ddarparu yn y pecyn cyfarfod yn nodi holl weithgareddau Trawsnewid plant a phobl ifanc hyd yma.

Gwerthusiad Canol Tymor o 4 Rhaglenni Trawsnewid BPRhGC

Mae BPRhGC yn nodi adroddiadau gwerthusiad canol tymor cadarnhaol gydag adborth da. Ceir adroddiad pellach ar gyfer 2020-21.

Cyllid Trawsnewid AHW – cynnig ail rownd

Gofynnir i BPRhGC gymeradwyo ffurflen gais cyllid ychwanegol AHW 2020-21 gan mai heddiw yw'r dyddiad cyflwyno i LIC.

Dywedodd BJE fod grŵp bach wedi cyfarfod yn wythnosol i ddatblygu'r cynnig ychwanegol yn seiliedig ar y meysydd ble roedd yn amlwg bod angen mwy o sylw o fewn y 4 Rhaglen Drawsnewid; Digidol, Gweithlu ac Ymyrraeth Gynnar ac Atal – darganfod/gwireddu datrysiadau i wella a thrawsnewid gwasanaethau cyfredol.

Mae'r grŵp hwn wedi cyflawni llawer o waith gyda dyddiad cau tynn i gyrraedd y dyddiad cyflwyno a osodwyd gan LIC erbyn 9.3.2020. Mae'r cyllid trawsnewid hwn ond ar gael ar gyfer 2020-21 ac mae CB wedi cytuno i weithredu fel Noddwr Rhaglen. Mae cynnig drafft wedi ei gyflwyno i LIC ond bydd angen cyflwyno cefnogaeth y BPRh heddiw.

Sylwadau ar e-bost:

ME - hapus gyda'r cynnig a diolch i bawb am greu cynnig mor gynhwysfawr. Dau bwynt byr iawn - a oes angen sôn am yr adnodd dementia rhith-wirionedd yn y cynnig rhag ofn bod adnodd ar gael i archebu mwy? Ni allaf weld cyfeiriad ato, ond mae Meilys wedi gofyn am fwy os oes arian ar gael yn y dyfodol. Mae'r ail bwynt yn fyr iawn, ond yn bwysig - cyfeirir at ddwyieithrwydd neu "ddewis o iaith" ond dim sôn am Mwy Na Geiriau fel Fframwaith Cenedlaethol. Mae'n well gen i ddweud "Cymraeg" mewn cynigion fel hyn - yn hytrach na dweud "iaith briodol".

JW a'r Cyng. LE – bodlon cytuno gyda'r cynnig digidol, croesawu iddo gael ei arwain gan Claire.

NS – rwy'n fodlon gyda'r cynnig Cymru lachach ychwanegol gan fod hwn wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth.

Camau Gweithredu

- Dosbarthu nodyn briffio RTGC - RW

8 CHC

Dywedodd MWim ers y cyfarfod diwethaf, cynhaliwyd trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd, a disgwyli'r penderfyniad interim yn fuan. Hefyd, mae'r sector darparwyr hefyd yn nodi'r pwysau ychwanegol cyfredol ar y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gofynnwyd i ni nodi hefyd bod pwysau cynyddol ar y sector Cartrefi Gofal i ddatrys y mater hwn. Mae MWim yn cytuno i oedi'r drafodaeth lawn nes cyfarfod nesaf y BPRh.

Sylwadau JW a'r Cyng. LE: Mae CHC yn fater mor sensitif a allwn ei ohirio ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol.

Camau Gweithredu

- Rhaglen Mai 2020 - RW

9 Er Gwybodaeth

Gofynnir i'r BPRh nodi'r dogfennau canlynol 'er gwybodaeth':

- Cynllun y gaeaf yn adrodd ar gyflwyniad hyd ddiwedd Ionawr 2020.
- Iechyd Yfory 2020 – y digwyddiad hwn bellach wedi ei ganslo
- Llythyr mapio cyllid gan gadeiryddion BPRh.
- Adroddiad Tai ar anghenion llety pobl hŷn.
- Iechyd Cyhoeddus Cymru: llythyr cefnogaeth i BPRh
- Hawliad Chwarter 3 Cronfa Gofal Integredig

10 Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y cadeirydd fod cydweithiwr BIPBC yn brysur yn gweithio ar yr agenda Covid-19 i amddiffyn iechyd poblogaeth Gogledd Cymru, a gofynnodd i gydweithwyr gysylltu yn electronig.

Soniodd MWim hefyd am bryder o fewn y sector darparwyr a'r rhai sy'n darparu cefnogaeth i unigolion diamddiffyn. Adroddiadau dal yn cael eu casglu a rhai comisiynwyr wedi bod mewn cysylltiad o ran ymweliadau diangen etc. Mae materion yn cynnwys:

- Cartrefi gofal yn anfodlon cymryd cleientiaid newydd oherwydd risgiau Covid-19
- Dyddiad cau ailgofrestru hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal ar y gorwel
- Cynllunio ar gyfer diffyg staff
- Cynllunio ar gyfer defnyddio datrysiadau llety creadigol
- Cynyddu capasiti cymunedol i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain
- Prinder cyflenwadau ac offer

Amlygodd PW adroddiad Ymddiriedolaeth Gofalwyr DU, sy'n hysbysu os yw'r gofalwr yn mynd yn sâl beth fydd yn digwydd i'r claf.

Awgrymodd NA y dylai cydweithwyr gadw'r BPRhGC mewn meddwl ar gyfer cyfleoedd gwobrwyo'r dyfodol.